Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL | | GENERAL GRANTS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 10 GORFFENNAF 2019 am 2.00 o'r gloch yp | | WEDNESDAY, 10 JULY, 2019 at 2.00 pm |
| COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chair of the Charitable Trust – T Ll Hughes**
**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chair of the Charitable Trust – R O Jones**

**Lewis Davies**
**Richard A Dew**
**Glyn Haynes**
**Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair)**
**Llinos M Huws**
**Richard O Jones**
**Dylan Rees**
**Margaret M Roberts (Is-gadeirydd/Vice-Chair)**
**Peter S Rogers**
**Shaun Redmond**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddrodeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 11 Gorffennaf, 2018.
*(Cofnodion wedi cael eu cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ei gyfarfod a gafwyd ar 18 Medi, 2018).*

3 **GRANTIAU BLYNYDDOL 2019/20** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Lewis Davies, R Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Dylan Rees a Margaret M Roberts |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cynorthwywr Gweinyddol (CS),<br>Cyfrifydd dan Hyfforddiant (NJO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Llinos Medi Huws a Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESEENOL:** | T Ll Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Vaughan Hughes yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mrs Margaret M Roberts yn Is-gadeirydd.

**3 Datganiad o Ddiddordeb**

Gwnaeth Mr Lewis Davies ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 038 (Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon) ac ni chymerodd unrhyw ran yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y cais hwn.

Gwnaeth Mr. T Ll Hughes MBE, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 033 (Treseifion – Cymdeithas Cae Cybi) ac ni chymerodd unrhyw rhan yn y drafodaeth ar y cais. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

(Nodwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn ei chyfarfod ar 19 Gorffennaf, 2017).

**5 Grantiau Blynyddol 2018/19**

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried y ceisiadau a oedd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dyrennir arian yn flynyddol ar gyfer prosiectau yn y categorïau canlynol:

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychan)
- Grantiau Eraill (grantiau unwaith ac am byth yn bennaf)

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2018, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016 i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau Grantiau Bychan a, felly, dim ond rhaid nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei wneud o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grant Cyfleusterau'r Gymuned a Chwaraeon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

Cafodd y ceisiadau eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac roedd copi yn Atodiad C yr adroddiad.

**Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon 2018/19 :-**

| | | |
|---|---|---|
| 001 – 3DKids Môn/Anglesey | I gynnal gweithgareddau ar gyfer plant gydag anableddau a'u teuluoedd | **DIM**<br><br>*(wedi derbyn grant i'r un pwrpas yn 2016/17)* |
| 002 – Music in Hospitals and Care | I ran gyllido cerddoriaeth ac atgofion.<br><br>Cyfres blwyddyn o gyngherddau byw dwyieithog i ddod â llawenydd a chynyddu atgofion ar gyfer yr henoed a phobl ynysig sy'n byw mewn cartrefi preswyl ar yr Ynys | **£5,468** |
| 005 - Clwb Pêl Droed Bae Trearddur | Gwella a chynnal a chadw y tiroedd | **DIM**<br>*(wedi derbyn grant yn 2016/17)* |
| 006 – Roberts & Susan Howe | Gwneud ochrau ffyrdd yn fwy deniadol | **DIM**<br>*(dim yn gymwys oherwydd mai cais gan unigolion yn hytrach na sefydliad ydyw)* |
| 007 – Sefydliad Pritchard Jones | I brynu byrddau ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithgareddau | **£618** |
| 008 – Ynys Môn Ramblers | Prynu offer ac eitemau diogelwch cysylltiedig | **£1,522**<br>*(ar yr amod y derbynnir ail ddyfynbris ar gyfer y gwaith)* |
| 009 - Ffedarasiwn Sefydliad y Merched Môn | Addurno tu mewn a tu allan i'r neuadd a'r amgueddfa ynghyd â deunydd marchnata | **£644**<br>*(tuag at gost y deunydd marchnata yn unig. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi costau paentio ac addurno yn y gorffennol)* |
| 010 – Cantorion Menai | Perfformio cyngerdd o waith cerddor lleol | **DIM**<br>*(roedd y digwyddiad wedi cael ei gynnal cyn cyfarfod y Pwyllgor)* |
| 011 – Canolfan Gymuned David Hughes | Gosod lifft gyda mynediad i'r llawr cyntaf | **£8,000** |

| | | |
|---|---|---|
| | | *(ar yr amod y derbynnir copi o'r brydles ar gyfer Canolfan Gymuned David Hughes)* |
| 012 – Beaumaris Duplicate Bridge Club | Prynu peiriant delio | **£1,620** |
| 013 Sefydliad y Merched Llaneilian | Uwchraddio'r llawr i garped | **DIM** |
| 015 - Neuadd Goffa Gymunedol Porthaethwy | Uwchraddio'r toiledau | **£8,000** |
| 016 – Clwb Pêl-droed Bron Goronwy | Diweddaru ac adnewyddu'r toiledau yn yr ystafelloedd newid | **£2,380**<br>*(dyrannu'r grant er mai dim ond 16 o flynyddoedd sydd ar ôl ar y brydles i'r Clwb Pêl-droed. Ystyriwyd y byddai angen cawodydd newydd cyn i'r brydles ddod i ben)* |
| 017 – Cybi Poets | Digwyddiad undydd o lefaru, barddoniaeth, bandiau, sgwrs ar R.S. Thomas a chystadleuaeth farddoniaeth ddwyieithog | **£800** |
| 018 – MônSwn | I brynu offer cludadwy ac hwylus i'w osod | **£1,539** |
| 019 – Clwb Pêl-droed Amlwch | Adnewyddu to'r adeilad, gosod insiwleiddiwr "Box Profile", gwteri newydd a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol | **£7,350**<br>*(ar yr amod fod y gwaith yn cael ei gymeradwyo gan adeiladwyr proffesiynol oherwydd y bydd yn cael ei wneud gan aelodau'r Clwb)* |
| 020 - Clwb Bowlio Dan Do Caergybi | Matiau Bowlio newydd | **£1,000** |
| 021 – Danger Point Limited | Cyllido prosiect ar gyfer plant o ysgolion ar hyd a lled Ynys Môn | **DIM**<br><br>*(nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi gweithgareddau ysgol yn y gorffennol)* |
| 022 – Hwyliog Môn | I wella ei dudalen cyfryngau cymdeithasol/tudalen we er mwyn codi eu proffil yn y gymuned | **£1,750** |
| 023 – Clwb Gymnasteg Ynys Môn | Prynu offer | **DIM**<br>*(wedi cael grant yn 2016/17)* |
| 024 - Cymdeithas Rhandir Llangefni Allotment Association | Prynu gliniadur a chreu llwybrau pob tywydd | **£3,092** |
| 025 – Neuadd Eglwys y Santes Fair, Caergybi | Gosod system wresogi newydd yn y neuadd | **£7,320** |
| 026 – Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen | Prynu meinciau ar gyfer lle chwarae Rhostrehwfa | **£700** |
| 027 – Radio Ysbyty Gwynedd | Uwchraddio offer darlledu Stiwdio 2 yn Radio Ysbyty Gwynedd | **£6,882**<br><br>*(yn amodol ar farn gyfreithiol ynghylch a fedr yr Ymddiriedolaeth Elusennol roddi grant i sefydliad sy'n darparu gwasanaeth i fwyafrif o bobl nad ydynt yn byw ar yr Ynys. Dirprwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i roddi grant ai peidio i'r Trysorydd wedi iddi* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *dderbyn y farn gyfreithiol.* |
| 028 – Clwb Pêl-droed Llangoed a'r Cylch | I brynu peiriant torri gwair y mae modd eistedd arno a chynhwysydd storio | **£4,611**<br><br>*(yn amodol ar dderbyn dyfynbris ar gyfer y cynhwysydd storio)* |
| 029 – Canolfan Penmynydd | Atgyweirio'r gegin | £5,345<br><br>*(yn amodol ar gael cadarnhad fod gan y sefydliad eu harian eu hunain i dalu 30% tuag at y costau)* |
| 030 – Menter Neuadd St Gwenfaen, Rhoscolyn | Uwchraddio'r toiledau | **£7,905** |
| 031 – Byd Dawns Môn | Prynu offer fel matiau, drychau ac ati i ymarfer ar gyfer cystadleuthau cenedlaethol | **£8,000** |
| 032 – Grŵp Llyfrau Gwrando | I ymestyn ei ystod o offer llyfrau gwrando ac i ymgymryd â nifer o ymweliadau â'i aelodau dall a rhannol ddall | **£1,245** |
| 033 – Cymdeithas Cae Cybi, Treseifion | Prynu peiriant torri gwair y gellir eistedd arno | **£2,660** |
| 034 – Grŵp Treftadaeth Caergybi | Trefnu gweithgareddau coffa canmlwyddiant R.M.S. Leinster a ddinistriwyd gan dorpedo yn 1918 | **£5,250** |
| 035 – Neuadd Bentref Talwrn | Uwchraddio'r system gwres canolog | **£4,347** |
| 036 – Cyngor Cymuned Penmynydd a Star | Prynu siglenni ar gyfer y lle chwarae | **£2,100**<br><br>*(ar yr amod y derbynnir ail ddyfynbris)* |

(Dywedodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018 wedi rhoi sylw i nifer o geisiadau am Grantiau mawr a'u bod wedi penderfynu anfon un cais ymlaen i'r Pwyllgor hwn i'w ystyried ac roedd y cais am £8,000 i'w weld yn Atodiad B yr adroddiad. **PENDERFYNWYD caniatáu'r cais fel y'i nodir isod:-**

| | | |
|---|---|---|
| 038 – Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon | Adfer y giatiau haearn sydd o gwmpas Neuadd y Bentref ac sydd dros 100 oed. Byddai hynny'n gwella'r adeilad ac yn gwneud y gwneud y terfyn yn ddiogel. | **£8,100** |

Dywedwyd bod ceisiadau 007, 009, 017 a 026 am symiau bychan ac ystyriwyd y byddai'n briodol dweud wrth yr ymgeiswyr y gellir dyrannu hyd at £8,000 mewn grantiau bychan. Dylid dweud wrth yr ymgeiswyr na fyddant yn gymwys i dderbyn grant o Gronfa Grantiau Bychan yr Ymddiriedolaeth Elusennol am gyfnod o 5 mlynedd ond y gallant gyflwyno cais am Grant Mwy drwy'r Pwyllgor Adfywio. Felly, os ydynt yn penderfynu gwrthod y cais am grant, ni fyddai gwaharddiad arnynt rhag cyflwyno cais am Grant Bychan wedyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau a restrir uchod (£101,277) [y symiau a argymhellir], sef 70% o'r cyllid grant sydd ar gael.**

**Mr Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **10 GORFFENNAF 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2019/20** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **AMLINELLU'R CEISIADAU GRANT AM 2019/20** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU AM 2019/20** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol, ar safle we y Cyngor ac ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â Chronfa'r Degwm. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau am flwyddyn ariannol 2019/20 oedd dydd Gwener 10fed Mai 2019.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau gan Swyddogaeth Adnoddau y Cyngor Sir, maent yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau eraill sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn, nid yr Ymddiriedolaeth hon.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach);
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf).

**5.** Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2019, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau am Grantiau Bychan ac, o'r herwydd, ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grantiau Cyfleusterau Gymunedol a Chwaraeon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn i godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**6.** Mae'r swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, i'r graddau y mae hynny'n bosibl ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol, ond, mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r dyfarniad grant yn cael ei wneud gan y Pwyllgor hwn. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am gyllid o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad B.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r gost dilys, hyd at uchafswm o £8,000. Byddai hyn yn costio cyfanswm o £26,322 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn. Mae £10,000 o geisiadau pellach i'w penderfynu gan y Pwyllgor hwn. Cafodd un grant pellach ei gyfeirio o'r ceisiadau am Grantiau Mawr oherwydd mai swm bychan o gyllid y gofynnwyd amdano.

**9.** Yn dilyn yr argymhellion uchod, byddai £36,842 yn cael ei wario. Mae hyn yn sylweddol is na'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer 2019/20, sef of £125,000. Gallai balans o £88,158 fod ar gael ar gyfer ail rownd o geisiadau'n ddiweddarach yn y flwyddyn petai'r Pwyllgor yn teimlo fod hyn yn briodol.

| | **ARFAETHEDIG 2019/20** | | **GWIRIONEDDOL 2018/19** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **Rhif** | **£** | **Rhif** |
| Argymhellion Swyddogion (Atodiad A) | 26,322 | 8 | 101,277 | 26 |
| Pwyllgor i benderfynu (Atodiad A) | 10,100 | 2 | | |
| Cyfeiriwyd o'r Grantiau Mawr | 420 | 1 | 8,000 | 1 |
| | **36,842** | **11** | **109,277** | **27** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion yn yr Atodiadau.

**11. Y PENDERFYNIADAU SYDD EU HANGEN**

**(a)** Ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir yn Atodiad A.
**(b)** Ystyried a ddylid cefnogi ceisiadau 007 a 010 ai peidio.
**(c)** Penderfynu a ddylid agor ail rownd o geisiadau yn yr hydref er mwyn defnyddio'r gyllideb sydd heb ei hymrwymo ar gyfer 2019/20.

**MARC JONES**
**TRYSORYDD, YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **27 MEHEFIN 2019**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2019/2020** **ATODIAD A**
***ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST*** ***Community Facilities – Capital Grants 2019/2020*** ***APPENDIX A***

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **001** | **DHDC/DOWH (Darganfod Hen Dai Cymreig/Discovering Old Welsh Houses)** | Cyfieithu hanes llawn deiliaid Plas Penmynydd o 1500 hyd heddiw, yn cynnwys adroddiad pensaernïol a thaflenni o hanes byr Plas Penmynydd ar gyfer ymwelwyr /*Translation of Plas Penmynydd occupants from 1500 to present day, including architectural report and leaflets tracing the brief history of Plas Penmynydd for use by visitors.* | £5,000 | £5,000 | Gan fod y gwaith yn bwnc arbenigol, nid yw wedi bod yn bosib, cael dau bris. Mae'r cyfieithydd sydd wedi prisio am y gwaith yn meddu ar yr eirfa angenrheidiol sydd ei angen a gall cychwyn ar waith ar unwaith./ *As the work is a specialist subject, it has not been possible to obtain two prices. The translator who has priced for the work has the necessary vocabulary required and can begin the work immediately.* | **£3,500** |
| **002** | **PARTI MEIBION BARA BRITH** | Prynu allweddell a weithredir gan fatri i biano trydan i'w ddefnyddio lle nad oes trydan ar gael ac i brynu bag i'w gludo. / *To purchase a battery operated keyboard for an electric piano so that it can be used where there is no electricity available and a keyboard bag.* | £113 | £110 | | **£79** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **005** | **MôN-SAR** | Prynu offer achub hanfodol i ymdopi gydag ehangu'r tîm a chyhoeddusrwydd./ *To purchase new essential rescue equipment to cope with the expansion of the team & publicity.* | £40,000 | £30,000 | Y cynllun yn rhy fawr i'r grant hwn - cyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Grantiau Mawr/ *The scheme is too large for this grant – refer the application to the Larger Grant Committee.* | **DIM/*NIL*** |
| **006** | **Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy/Menai Bridge and District Civic Society** | Cyhoeddi llyfryn yn ymwneud a bwyd traddodiadol Ynys Môn. Uwchraddio'r wefan i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. /*Publication of Booklet relating to traditional food of Anglesey.* Update website to provide bilingual Service. | £1,212 | £867 | | **£848** |
| **007** | **Gobaith Môn** | Prynu cawell pêl-droed a threlar fan. / *Purchase of football cage and box van trailer.* | £8,570 | .<br>£5,600 | Ymddengys o'r cais y bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio yn bennaf yn yr ysgolion. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn y gorffennol wedi cefnogi cynlluniau fyddai'n fanteisiol i ysgolion. / *It appears from the application that the equipment will be used mainly in schools. The Trust, has not in the past supported schemes which would benefit schools.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide* (£5,600)** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **008** | **Neuadd Goffa Bodedern Memorial Hall** | Amnewid 2 foeler gwres canolog a phrynu byrddau a throli i'w cludo. /*Replace 2 central heating boilers and purchase tables and trolly to transport.* | £7151 | £8,000 | | **£5,005** |
| **009** | **Cyngor Cymuned Bryngwran Community Council** | Gosod matiau diogelwch o dan/o gwmpas offer cae Chwarae Bryngwran. / *Place safety matting under/surrounding play Equipment at Bryngwran Playing field.* | £3,500 | £3,000 | Wedi derbyn grant yn 2017/2018, felly, ddim yn gymwys. / *Received a grant in 2017/2018, therefore, not eligible.* | **DIM/NIL** |
| **010** | **Cantorion Menai** | Prosiect Cerddorol ar raddfa fawr i lwyfannu gwaith corawl gydag unawdwyr proffesiynol o Gymru, Cantorion Menai a cherddorfa leol./ *Musical project on a large scale to stage a choral work with professional soloists from Wales, Cantorion Menai Choir and a local orchestra.* | £17,500 | £4,500 | Mae'r Pwyllgor wedi cyllido yn ofalus ac yn hyderus y bydd incwm tocynnau a grant sydd wedi ei dderbyn gan Tŷ Cerdd yn cyfrannu yn helaeth tuag at y fenter. Mae'r côr yn ceisio arbed diffyg o £4,500 a dyna pam eu bod yn gwneud y cais hwn./*The Committee have budgeted carefully and are confident that the income from ticket sales and the grant received from "Tŷ Cerdd" will contribute extensively towards the enterprise. The choir are trying to avoid a shortfall of £4,500 which is the reason for this application.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide* (£4,500)** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **012** | **GeoMôn UNESCO Global Geopark** | Prynu offer cyfrifiadurol i'w ddefnyddio gan ymwelwyr i'r Tŵr Gwylio GeoMôn yn Amlwch. / *Purchase of computer equipment for use by visitors at the GeoMôn Watch House in Amlwch.* | £3,400 | £2,380 | | **£2,380** |
| **013** | **Cyngor Cymuned Llanddaniel Community Council** | *Prynu offer ar gyfer y cae chwarae. / Purchase equipment for the playing field.* | £10,000 | £10,000 | | **£7,000 (ar yr amod eu bod yn anfon prisiau tebyg i debyg/** *conditional to receipt of like for like estimates)* |
| **014** | **Jon Egging Trust** | I gyflogi Cyswllt Ieuenctid dwyieithog i gyflwyno pecynnau "Blue Skies Inspire" i ddwy ysgol ar Ynys Môn. / *To employ a fluent Welsh-speaking, Youth Liaison Officer to deliver Blue Skies Inspire Packages to two local schools on Ynys Môn.* | £4,330 | £2,909 | Mae hwn yn gais tuag at gostau cyflog sydd ddim yn cymwys. Hefyd,nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn y gorffennol yn cefnogi cynlluniau fyddai'n fudd i ysgolion. /*This is an application towards wages which is not eligible. Also, the Trust has not in the past given support to schemes that would benefit schools.* | **DIM/*NIL*** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **015** | **Pwyllgor Gŵyl Montage Festival Committee** | Trefnu gŵyl undydd Ysgrifennu Môn. / *Organise a one day Anglesey Writing Festival.* | £2,081 | £250 | Wedi derbyn grant yn 2017/2018 felly ddim yn gymwys/*Received a grant in 2017/2018 therefore not eligible.* | **DIM/*NIL*** |
| **016** | **Canolfan Cynghori Ynys Mon – Citizens Advice** | Uwchraddio'r adeilad maent wedi symud iddo'n ddiweddar a phrynu dodrefn ail law a dodrefn bwyta newydd. /*Refurbish the premises they have recently moved to, purchase second hand furniture and new dining furniture.* | £12,727 | £8,000 | Gan nad oes ganddynt brydles o 21+ o flynyddoedd, nid ydynt yn gymwys am grant ar gyfer y gwaith adnewyddu. / *As they do not have a lease of 21+ years, they are not eligible for funding for refurbishments.* | **£559 (Tuag at gost y dodrefn (£799) yn amodol eu bod yn cyflwyno ail bris. / *Towards the cost of the furniture (£799) subject to submitting second estimate)*** |
| **017** | **Canolfan Iorthwerth Rowlands** | Prynu a gosod boeler newydd a gwaith ategol. / *Purchase and installation of a new boiler and ancillary works.* | £9,930 | £6,951 | | **£6,951** |

**CEISIADAU A GYFEIRIWYD O'R GRANTIAU MAWR / *APPLICATIONS REFERRED FROM THE LARGE GRANTS***

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **17** | **Cerddoriaeth yn Ysbytai a Gofal Cymru Music in Hospital and Care Cymru** | Bydd y cyllid yn darparu 2 gyngerdd cerddoriaeth byw proffesiynol ar gyfer yr henoed, y bregus ac i bobl sâl sydd yn byw yng Nghartrefi Gofal yn Ynys Môn. Mae gan gerddoriaeth byw effaith bwerus ar iechyd a lles ac mae'n tynnu sylw oddi wrth y drefn bywyd dyddiol mewn sefydliad gofal iechyd. Mae'r cyngherddau hefyd yn darparui'r cyfle i drigolion, teuluoedd a staff i glosio. / *The funding will provide 2 professional live music concerts for the elderly, vulnerable and unwell living in Care Homes in Anglesey. Live music has a powerful effect on health and wellbeing and provide a distraction from the daily routine of normal life in a Healthcare establishment. The concerts also provide an opportunity for the residents, families and staff to bond.* | £600 | £500 | | **£420** |

**ATODIAD B**

## MEINI PRAWF AR GYFER DYRANU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

## gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymunedol

### 1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH

Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**a)** Dim ond dan un categori neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**b)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwysi neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**c)** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer personol a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am y gwariant hwn.

**ch)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**d)** Rhaid amgáu o leiaf dau amcan bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**dd)** Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn ceisiadau.

**e)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

### 2. GRANTIAU CYFALAF

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir, ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa os yw'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff cais am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi ardystio fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bod modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

**2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNEDOL**

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r holl gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn realistig.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymunedol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymuned/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r grant (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried am gymorth ariannol pellach oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Fawr, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud gan y gymuned o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd o flaen llaw i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir.

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliadau blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael eu gwneud.

**3. MUDIADAU CHWARAEON**

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth tuag at y costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

**4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU**

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;
- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd, rhaid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

**5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED**

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymunedol.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**ADOLYGWYD EBRILL 2015**